Ysgol Nefyn

Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6EA

Pennaeth/*Headteacher*: Alan Jones
Ffôn/*Phone*: (01758) 720765
E-bost/*E-mail*: alanjones@gwynedd.gov.uk
***Safwe/Website*:** www.ysgolnefyn.org

"Angor gadarn cyn hwylio'r don."

Annwyl Rieni/Dear Parents,

TREFNIADAU CAU'R YSGOL MEWN TYWYDD GARW.

Gyda rhagolygon y tywydd yn sôn am eira at ddiwedd yr wythnos hoffwn adael i chi wybod beth fyddai'r trefniadau pe byddai rhaid cau'r ysgol. Mae'n well i ni fod yn barod o flaen llaw!

- Byddwn yn ymdrechu i wneud penderfyniad cyn gynted a phosib.
- Wrth wneud y penderfyniad fe fydd ystyriaeth yn cael ei roi i 2 brif ffactor. Yn gyntaf byddwn yn ystyried diogelwch y iard/o amgylch yr adeilad. Yn ail byddwn yn sicrhau bod nifer priodol o staff yn gallu dod i'r ysgol.
- Os bydd rhaid cau, byddwn yn hysbysu Cyngor Gwynedd. Yna fe fyddant yn rhoi y gwybodaeth ar safwe Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.gov.uk) ac i'w glywed ar Radio Cymru a Capital Cymru.
- Byddwn yn anfon neges destun allan i rieni.
- Fe fydd y wybodaeth yn cael ei roi ar dudalen 'Facebook' Ysgol Gynradd Nefyn.

Gan obeithio ni fydd rhaid defnyddio'r drefn yma, er dwi'n siwr byddai'r plant yn dweud yn wahanol!

GWISGO COCH AR GYFER CLEFYD CYNGHENID Y GALON.

Dydd Iau, Chwefror 12fed mae croeso i'r plant wisgo unrhyw beth coch er mwyn cefnogi elusen Clefyd Cynghenid y Galon. Dyma glefyd sydd wedi ein effeithio yn lleol yn ddiweddar. Gofynnwn yn garedig am **unrhyw gyfraniad** tuag at yr achos y diwrnod yma.

HYRWYDDO YMDDYGIAD DA

Rydym yn hyrwyddo ymddygiad mewn ffordd positif yn yr ysgol. Amgaeaf llyfryn cryno sydd yn egluro y broses yma er gwybodaeth i chi.

ATGOFFA O DDYDDIAD CAU

Nodyn i'ch atgoffa ni fydd ysgol i'r plant **Dydd Gwener, Chwefror 13eg** oherwydd hyfforddiant i staff. Golyga hyn fydd yr ysgol yn cau i blant ar ddydd Iau, Chwefror 12fed ar gyfer hanner tymor ac yn ail agor **Dydd Llun, Chwefror 23ain.**

Yn gywir,
Alan Jones

ARRANGEMENTS FOR CLOSING THE SCHOOL DUE TO BAD WEATHER.

With the weather forecasters mentioning snow towards the end of the week, here are the arrangements if we do have to close the school. It's better to be prepared!

- We will try our best to make a decision as early as possible.
- In order to make a decision two main factors will be considered. Firstly, the safety of the school yard and surroundings. Secondly, we will consider the appropriate number of staff able to come to school.
- If the decision is taken to close, we will inform Gwynedd Council, who in turn will publish the information on their website (www.gwynedd.gov.uk) and let Radio Cymru and Capital Cymru know.
- We will inform the parents by text message.
- The information will also be posted on 'Ysgol Gynradd Nefyn's Facebook page.

Here's hoping that we won't have to follow the above steps, even though I don't think the children would agree with me!

PROMOTING GOOD BEHAVIOUR

We promote good behaviour in a positive way at Ysgol Nefyn. I enclose a booklet for your information that outlines our processes.

WEARING RED TOWARDS CONGENITAL HEART DISEASE

On **Thursday, 12th February**, the children are welcome to wear anything red towards Congenital Heart Disease. This is a condition that has affected us locally recently. We kindly ask for any contribution on the day.

REMINDER OF SCHOOL CLOSURE

A note to remind you that the school will be closed on **Friday, February 13th,** due to teacher training. This means that we close for half term on Thursday, 12th February, and will then re-open on **Monday, 23rd February.**

Sincerely,
Alan Jones